# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Bancyfelin**

**Neuadd y Pentref**
**Bancyfelin**
**Caerfyrddin**
**SA33 5ND**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**18 Medi 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Bancyfelin yn darparu gofal sesiynol ar gyfer uchafswm o 24 o blant o ddwy flwydd oed. Cynhelir y Cylch yn neuadd bentref Bancyfelin. Mae ar agor rhwng 9.15am a 11.45am ar ddydd Mawrth a rhwng 12.45pm a 3.15pm ar ddydd Mercher a dydd Gwener. Caiff y gwasanaeth ei ariannu i ddarparu gofal i blant tair oed ac o ganlyniad, caiff ei arolygu gan Estyn. Gillian Lewis yw'r person cofrestredig yn ogystal â'r person â chyfrifoldeb. Cymraeg yw iaith y gofal.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant sy'n mynd i Gylch Meithrin Bancyfelin yn hapus iawn ac wedi setlo'n dda. Maent yn cael gofal gan staff tyner, caredig a sefydledig sydd wedi ymrwymo i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'n amlwg bod y plant yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth ac yn cael budd o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio a chyfleoedd chwarae distrwythur. Mae gan y plant ardal awyr agored gaeedig sy'n rhoi digon o gyfleoedd iddynt chwarae. Mae'r rhieni'n hapus â chynnydd eu plant a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

**2. Gwelliannau**

Mae'r ardal awyr agored wedi cael ei datblygu ac mae bellach yn cynnwys teiars tractor er mwyn plannu a chwarae byd bach, meinciau picnic a sied i gadw adnoddau.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Argymhellwn y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

- ffurfioli'r trefniadau i oruchwylio aelodau staff unigol.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Gall y plant yng Nghylch Meithrin Bancyfelin wneud dewisiadau ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Maent yn hapus, yn ddiogel ac yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn cael cyfleoedd ardderchog i ddatblygu eu hannibyniaeth.

### Ein canfyddiadau

#### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant yng Nghylch Meithrin Bancyfelin ddewis, maent yn cyfathrebu â'i gilydd a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt ac mae'r oedolion hynny'n gwrando arnynt.

Ar ôl cyrraedd y gwasanaeth, roedd y plant wedi dewis yn hyderus o blith amrywiaeth o weithgareddau chwarae yn yr ardal awyr agored. Gwnaethant chwarae â sgwteri; teganau reidio, y siglen neu'r whilber a'r rhawiau. Cafodd y plant nifer o gyfleoedd yn ystod y sesiwn i leisio eu barn a gwneud dewisiadau personol. Yn ystod amser cylch, dewisodd y plant fatiau bach wedi'u rhifo i eistedd arnynt a gwnaethant ofyn am eu hoff ganeuon. Ymatebwyd yn gadarnhaol i geisiadau'r plant. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, gofynnodd y plant am fwy o dost, llaeth a ffrwythau a chafodd mwy eu darparu'n syth. Wrth baentio yn yr awyr agored, gofynnodd y plant am eu hoff liw paent a chawsant y lliw paent o'u dewis. Rhoddwyd amser a sylw i'r plant wrth iddynt siarad, er enghraifft, roedd un plentyn am ddweud wrth y staff am ben-blwydd ei frawd ac roedd un arall am ddweud wrth y staff am ei amser yn y carnifal lleol.

Mae gan y plant lais cryf.

#### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo'n dda yn y gwasanaeth. Maent yn hapus, yn gartrefol ac yn teimlo bod y staff yn eu gwerthfawrogi.

Roedd y rhan fwyaf o'r plant wedi cyrraedd y gwasanaeth yn hapus ac wedi setlo i lawr yn gyflym i chwarae. Roedd un plentyn ychydig yn anniddig i ddechrau ond cafodd ei gysuro'n garedig gan y staff a chafodd ei hoff jig-so i'w gwblhau. Setlodd y plentyn i lawr yn gyflym gan chwarae â'r plant hŷn a oedd yn garedig iawn iddo ac wedi'i gynnwys yn eu chwarae. Roedd y plant wedi chwerthin yn hapus wrth iddynt ddal pêl gydag aelod o staff. Roedd y plant wedi ymlacio ac wedi ymgolli'n llwyr yn eu chwarae. Wrth ymarfer ar gyfer eu diwrnod mabolgampau, roedd y plant wrth eu bodd bod y plant eraill yn annog eu hymdrechion drwy guro dwylo wrth iddynt eu gwylio.

Mae'r plant bob amser yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

#### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau ac maent yn sensitif i emosiynau unigolion eraill. Maent yn aros eu tro, yn rhannu ac yn cydweithredu.

Roedd y plant wedi chwarae ar eu pen eu hunain, ochr yn ochr â'i gilydd, mewn parau ac mewn grwpiau bach. Y tu allan, roedd y plant wedi cydweithio i lenwi whilber â phridd. Roedd un plentyn wedi dal y whilber tra bod y llall wedi defnyddio rhaw i'w llenwi. Roedd un plentyn yn eistedd ar fainc yn aros i baentio pan ddaeth ei ffrind ato, eistedd wrth ei ymyl a rhoi cwtsh iddo. Roedd y plant wedi chwarae â'i gilydd yn hapus gyda phridd a chloddwyr. Roedd y plant wedi esgus gwneud hufen iâ ar gyfer ei gilydd gan ddefnyddio peli a chonau plastig. Wrth ymarfer ar gyfer eu diwrnod mabolgampau, roedd y staff wedi rhoi medal i enillydd y ras. Ar ddiwedd y ras nesaf, roedd y plant wedi rhoi'r fedal yn hapus i'r enillydd nesaf. Roedd y plant wedi gofyn yn gwrtais i'r plant eraill am dro ar y siglen ac wedi aros eu tro yn naturiol. Roedd y plant wedi dilyn ei gilydd ar sgwteri ac wedi gweiddi ar eu ffrindiau "Aros i fi!". Roedd y plant hŷn yn garedig iawn i'r plant iau gan roi teganau iddynt fel tractor neu raw a'u cynnwys yn eu chwarae.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn â'i gilydd.

**1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?**

Mae'r plant yn dangos diddordeb ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Maent yn cynnal eu diddordeb mewn gweithgareddau ac yn gyfarwydd â chwarae strwythuredig a chwarae rhydd.

Roedd y plant wedi archwilio'r amgylchedd yn ddirwystr ac wedi mynd i nôl teganau ac adnoddau eraill yn hyderus yn ôl eu dymuniad. Y tu allan, roedd y plant wedi ymgolli'n llwyr yn eu chwarae. Er enghraifft, llenwi whilberi â phridd a'u symud i ben arall yr ardal chwarae. Yn ystod amser cylch, roedd y plant wedi adrodd diwrnodau'r wythnos a misoedd y flwyddyn yn hyderus ac wedi ateb cwestiynau am y tywydd. Cafodd y plant lawer o gyfleoedd i ymarfer eu sgiliau corfforol ac roeddent wedi mwynhau cymryd rhan yn y ras wy a llwy a'r orymdaith tractors. Roeddent wedi neidio i fyny ac i lawr yn frwdfrydig pan ddaeth eu cyfle nhw i gymryd rhan. Roedd gwên lydan ar wynebau'r plant wrth iddynt esgus mynd ar y trên i olchi eu dwylo. Roedd y plentyn cyntaf ar y trên wedi canu'r gloch â balchder.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu'n fawr iawn.

**1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?**

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibynnol a'u hannibyniaeth.

Wrth gyrraedd y gwasanaeth, roedd y plant wedi dod o hyd i'w henwau unigol ac wedi'u pegio yn sownd ar rwyd yn annibynnol. Roeddent wedi hongian eu bagiau a'u cotiau eu hunain. Roedd y plant wedi golchi a sychu eu dwylo eu hunain cyn amser byrbryd. Roedd y plant wedi tacluso ar adegau amrywiol yn ystod y sesiwn ac roedd hi'n amlwg eu bod yn gyfarwydd â'r drefn. Roeddent wedi rhoi llawer o deganau yn y sied, wedi gosod eu cwpanau a'u platiau ar hambwrdd ar ôl cael byrbryd ac wedi rhoi'r mat â rhif y gwnaethant eistedd arno yn ystod amser cylch i gadw. Yn ystod amser byrbryd, roedd "helpwr y dydd" wedi gosod y platiau ac enwau'r plant ar y bwrdd. Roedd y plant wedi arllwys eu llaeth neu'u dŵr eu hunain o jygiau bach ac wedi taenu jam ar eu tost eu hunain. Ar ôl amser byrbryd, roedd y plant wedi sychu eu dwylo eu

hunain â hances ac wedi rhoi eu henw mewn drôr. Ar ddiwedd y sesiwn, anogwyd y plant i adnabod eu bagiau eu hunain a gwelwyd un plentyn yn dal y bagiau i fyny a gofyn i'r plant eraill “Bag pwy yw hwn?”

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn cael cyfleoedd ardderchog i fod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn diwallu anghenion y plant yn gyson am eu bod yn eu hadnabod yn dda. Maent yn ymrwymedig i ddarparu gweithgareddau amrywiol ac ysgogol i'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn ymwybodol o bolisi amddiffyn plant y gwasanaeth a'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt bryder am blentyn. Mae'r gwasanaeth yn hybu ffyrdd iach o fyw.

Roedd y staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o ddelio â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios gwahanol iddynt. Roedd y staff wedi diweddaru eu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatreg ac roedd gweithdrefnau clir ar waith i ddelio â digwyddiadau. Roedd y staff a'r rhieni'n llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y staff wedi sicrhau bod y plant wedi golchi eu dwylo cyn eistedd i lawr i gael byrbryd. Darparwyd tost, ffrwythau a dŵr neu laeth fel byrbryd iach. Roedd yr ardal awyr agored yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth ac roedd y plant yn cael cyfle i chwarae yn yr awyr agored bob dydd.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn ffordd fedrus.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae gan y gwasanaeth bolisi ar hybu ymddygiad cadarnhaol ac mae'r staff yn rheoli rhyngweithio mewn ffordd gyson.

Roedd y staff wedi canmol y plant am ymddwyn yn dda ac wedi ymateb i'r plant a oedd am gael cwtsh neu sicrwydd. Roedd y staff wedi siarad yn garedig ac yn gysurol â phlentyn a oedd yn anniddig ar ddechrau'r sesiwn. Daeth y staff o hyd i'w hoff jig-so a gwnaethant eistedd gydag ef i'w gwblhau.  Roedd y staff yn fodelau rôl da, gan siarad yn gwrtais ac yn garedig â'i gilydd a'r plant. Roeddent wedi canmol y plant am fod yn garedig a gofalu am y plant iau, “Da iawn ti. Ti yn dda yn helpu fi i edrych ar ôl y plant bach.”

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r plant yn cael gofal gan staff gofalgar a thyner sy'n gwybod am hoffterau a galluoedd unigol y plant.

Roedd y staff yn dilyn egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer pob ystod oedran. Roeddent yn cynllunio gweithgareddau ar sail thema, er enghraifft, o dan y môr, gan ddefnyddio'r llyfr 'Sali Sws' fel ysgogiad. Roedd gwaith y plant ar 'Sali Sws' i'w weld ar fyrddau arddangos isel, a oedd wedi'u gosod ar lefel y plant. Roedd y staff yn arsylwi ar y plant ac yn cadw cofnodion datblygu unigol yn

cynnwys manylion fel p'un a all y plentyn bedlo beic, tynnu llun cylch, rhoi pethau mewn trefn a defnyddio iaith leoliadol. Roedd y staff yn nodi'r cam nesaf ar gyfer pob plentyn a fyddai'n cael ei ddefnyddio wedyn i gynllunio gweithgareddau. Defnyddiwyd ap Book Creator ar yr iPad i nodi sgiliau a gweithgareddau unigol y plant. Roedd y staff yn cofnodi hoffterau'r plant, fel eu hoff fyrbryd a'u hoff degan, cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth.

Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol.

# 3. Yr Amgylchedd

## Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn galluogi'r plant i chwarae mewn ardal ddiogel gydag amrywiaeth o gyfleoedd ac adnoddau. Caiff y neuadd ei threfnu bob dydd i fodloni pob un o feysydd y Cyfnod Sylfaen. Mae'n rhaid i'r staff roi'r holl adnoddau i gadw bob dydd gan fod y neuadd yn cael ei defnyddio gan grwpiau cymunedol eraill. Mae ardal awyr agored ddynodedig sy'n amgaeedig ac yn cynnwys adnoddau da.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Maent yn sicrhau bod risgiau'n cael eu dileu i'r graddau sy'n bosibl.

Roedd y giât y tu allan yn cael ei chadw ar gau a'i hagor gan y staff er mwyn caniatáu i'r plant gyrraedd a gadael y gwasanaeth. Defnyddiwyd llyfr ymwelwyr i gofnodi pawb sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau ar gyfer yr ardal dan do a'r ardal awyr agored ac roedd risgiau wedi'u dileu i'r graddau sy'n bosibl. Roedd yr holl gyfarpar glanhau yn cael ei gadw'n ddiogel mewn cwpwrdd yn y gegin. Roedd pob darn o gyfarpar trydanol wedi cael prawf PAT. Roedd y gwasanaeth wedi cael sgôr o bump ar gyfer hylendid bwyd. Roedd ymarferion tân yn cael eu cofnodi a'u cynnal yn rheolaidd. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol i'w gweld ar hysbysfwrdd y gwasanaeth.

Mae'r staff yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd yn effeithlon.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn addas i blant a chaiff gwaith y plant ei arddangos ar fyrddau symudol ar lefel llygaid y plant.

Roedd y neuadd wedi cael ei threfnu i gynnwys amrywiaeth o ardaloedd chwarae. Roedd y staff yn paratoi'r ardaloedd ac yn clirio'r neuadd bob dydd ar ôl pob sesiwn. Roedd y staff wedi rhannu'r neuadd yn unol â meysydd y Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio byrddau arddangos isel a ddefnyddiwyd hefyd i arddangos gwaith y plant. Roedd yr arddangosfeydd yn cynnwys olion esgidiau'r plant, hunanbortreadau'r plant ac arddangosfa 'Sali Sws' a phaentiadau'r plant o 'Bili Broga'. Roedd amser cylch yn cael ei gynnal ar garped mawr a oedd yn cael ei osod allan ar gyfer pob sesiwn. Roedd yr ardal awyr agored yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth ac roedd yn gaeedig. Roedd yr ardal hon wedi'i datblygu'n dda ac roedd digon o gyfleoedd chwarae ar gael i'r plant. Roedd y plant wedi mwynhau chwarae â duplo ac ymlacio o dan gysgod coeden yn ogystal ag eistedd wrth fwrdd picnic yn paentio 'Bili Broga'.

Mae'r amgylchedd yn addas iawn i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r plant yn cael budd o adnoddau, cyfarpar a theganau o ansawdd da.

Roedd y cyfarpar a'r adnoddau o ansawdd da ac yn addas at y diben. Roedd y staff wedi darparu dodrefn o faint sy'n addas i blant er mwyn galluogi'r plant i eistedd wrth fyrddau'n annibynnol a chael gafael ar deganau a chyfarpar. Roedd yr adnoddau a'r cyfarpar mewn cyflwr da ac yn lân. Roedd digon o adnoddau i'r plant ddewis ohonynt. Roedd llyfrau a theganau amlddiwylliannol ar gael ac fe'u defnyddiwyd wrth edrych ar thema benodol. Roedd grisiau priodol ar gael i'r plant ddefnyddio'r toiledau a'r sinciau. Gallai'r plant ddefnyddio adnoddau fel jig-sos, 'tuff tray' ar gyfer chwarae byd bach, iPad i chwarae gemau a thynnu lluniau, yn ogystal â chyfarpar chwarae rôl.  Y tu allan, roedd y plant wedi chwarae gydag amrywiaeth o gerbydau bach, whilberi, rhawiau, cyfarpar dŵr yn ogystal â bygis a theganau reidio.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn darparu adnoddau a chyfarpar o ansawdd da ac yn eu cynnal a'u cadw.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yng Nghylch Meithrin Bancyfelin yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a bod lefelau staffio'n gywir. Maent yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu a bod y staff yn cael cyfleoedd hyfforddi rheolaidd. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â'r gymuned.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn rhoi polisïau'r gwasanaeth ar waith yn llawn, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r tîm staff yn cydweithio'n dda gyda chymorth effeithiol yr arweinwyr. Roedd y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau ac roedd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Roedd yn amlwg bod gan y staff gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, a roddodd adborth cadarnhaol ar y gwasanaeth. Er enghraifft,  “Mae'r Cylch yn drefnus gyda llawer o weithgareddau gwahanol” “Roedd fy mhlentyn wedi setlo'n gyflym ac mae wedi gwneud cynnydd da.”

Mae'r arweinyddiaeth yn dda yn y gwasanaeth hwn.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn ystyried barn y plant a'r rhieni.

Mae'r arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth bob blwyddyn ac yn llunio adroddiad. Nododd adroddiad y llynedd fod angen datblygu'r ardal awyr agored a chynnal prosiect garddio ar gyfer y plant. Roedd y plant wedi defnyddio hen deiars tractor wedi'u llenwi â chompost i dyfu mefus, blodau, blodau haul a phwmpenni. Roedd yr arweinwyr hefyd wedi gwneud cais am grant cynaliadwyedd.

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod lefelau staffio'r gwasanaeth yn gywir ac mae digon o weithgareddau ar gael i nifer y plant sy'n bresennol.

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol ac roedd yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Roedd gan y staff gymwysterau addas. Roedd arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ac roeddent yn nodi anghenion hyfforddi a thargedau datblygu personol. Roedd aelod o bwyllgor y gwasanaeth yn cynnal sesiynau arsylwi ar y staff bob tymor, ac roedd y rhain yn gadarnhaol ac yn ganmoliaethus. Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal ac roedd

sesiynau goruchwylio staff unigol yn cael eu cynnal yn ystod y cyfarfodydd hyn, ond nid oedd y rhain yn cael eu cofnodi. Roedd yr holl hyfforddiant craidd yn gyfredol.

Mae'r ffordd y caiff y staff a'r adnoddau eraill eu rheoli yn dda.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr a'r staff gydberthnasau da â'r rhieni a gofalwyr. Mae ganddynt gysylltiadau da â'r ysgol y mae'r gwasanaeth yn ei bwydo ac asiantaethau allanol eraill.

Roedd y rhieni a'r gofalwyr wedi siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a'r staff. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus â'r wybodaeth roeddent wedi'i chael am y gwasanaeth ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am ddatblygiad eu plant. Roedd y gymuned a'r rhieni yn cefnogi digwyddiadau codi arian, fel stondinau cacennau, yn dda. Mae'r staff a'r plant yn cymryd rhan yng ngharnifal blynyddol y pentref. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â'r ysgol y mae'n ei bwydo. Mae'r plant yn cymryd rhan ym mabolgampau'r ysgol ac yn mynd i gyngherddau Nadolig yr ysgol. Mae'r plant yn ymweld â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru bob tymor i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol.

Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â'r rhieni a'r gymuned.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

- ffurfioli'r trefniadau i oruchwylio aelodau staff unigol

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

- Cynhaliodd un arolygydd ymweliad â'r gwasanaeth ar 10 Gorffennaf 2018 am gyfanswm o 4 awr;
- gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, cofnodion hyfforddi, cofnodion damweiniau a chofnodion cynllunio;
- gwnaethom arsylwi'r plant gan ddefnyddio adnodd SOFI (fframwaith arsylwi byr ar gyfer arolygu) er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- gwnaethom siarad â'r person cofrestredig, y plant, y rhieni a'r staff.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Gillian Lewis** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Gillian Lewis** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 5 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Mawrth 9.15am -11.45am**<br>**Dydd Mercher i ddydd Gwener 12.45am – 3.15pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **8 Hydref 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu** | **10 Gorffennaf 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |